*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Mawrth, 13eg Hydref, 2020 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 9 Hydref 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 yn gofnod cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

**3.** **YMATEB I'R RHYBUDD O GYNNIG - TÂN GWYLLT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n amlinellu'r rheoliadau cyfreithiol cyfredol o ran gwerthu a defnyddio tân gwyllt, a thrafod sut y mae modd i'r Awdurdod Lleol gefnogi'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 27 Tachwedd 2019 (Atodiad 1), yn ogystal ag ymgyrch yr RSPCA sy'n galw am ragor o fesurau rheoli.

**(Tudalennau 15 - 24)**

**4.** **CYNLLUN BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys Adroddiad Blynyddol 2020/21 Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

**(Tudalennau 25 - 48)**

**5.** **GWEITHDREFNAU RHOI SYLWADAU, CANMOL A CHWYNO - ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb i'r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill  2019 a 31 Mawrth 2020.

**(Tudalennau 49 - 72)**

**6.** **TEITHIO LLESOL - ADOLYGU'R MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran - Materion Ffyniant, Datblygiad a Gwasanaethau Rheng-flaen, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal adolygiad o Fap Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol y Cyngor, gan gynnwys ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yma hefyd yn amlinellu'r rhesymau dros gynnal yr ymarfer yma.

**(Tudalennau 73 - 78)**

**7.** **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR (DRAFFT)**

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr, sy'n amlinellu Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol Rhondda Cynon Taf, sy'n nodi'r cynnydd yn 2019/20 a'r cynlluniau ar gyfer 2020/21 mewn perthynas â blaenoriaethau strategol y Cyngor.

**(Tudalennau 79 - 166)**

**8.** **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020/21 - 2023/24**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 tan 2023/24, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol, cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2021/22 yn ystod misoedd yr hydref.

**(Tudalennau 167 - 212)**

**9. YMGYSYLLTU MEWN PERTHYNAS Â CHYLLIDEB Y CYNGOR - 2021/22**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y dull 'digidol' o ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion ynglŷn â chyllideb 2021/22.

**(Tudalennau 213 - 218)**

**10. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu